

COFNODION CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWDYD YN Y NEUADD
GYMUNEDOL NOS LUN, y 5ED o FEDI 2022 AM 19.00 O'R GLOCH

PRESENNOL	CADEIRYDD	H HUGHES
		R DALTON
		A HUGHES
		G B Jones
		A J Morris
		N SALMON (DROS ZOOM)
		A THOMAS (O 20.10 o'r gloch)
		H WILLIAMS
Yn bresennol	CLERC	I RAILTON
		2 aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU

78. Y Cynghorwyr C Bainbridge, M Griffiths a D Pryce Jones

CYFRANOGLAD Y CYHOEDD

79. Estynnodd yr aelodau o'r cyhoedd groeso i'r Clerc i'w swydd newydd.

DATGAN BUDDIANNAU

80. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod. Rhoddwyd siartiau llif 'Datgan Diddordeb' i gynghorwyr a'u fe'u hanfonwyd trwy e-bost at y rhai nad oeddent yn bresennol.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

81. Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar y 4ydd o Orffennaf. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Morris a'r eilydd oedd y Cynghorydd A Hughes. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

MATERION YN CODI

82. Cadarnhaodd y Cynghorydd Williams y sefyllfa o ran mater a oedd i'w benderfynu ers cyfarfod mis Gorffennaf (Cofnod 70), a dywedodd y Cynghorydd A Hughes y bydd yr hyfforddiant ar y diffibriliwr (Cofnod 73) yn cael ei gynnal ddiwedd Medi. Bydd A Hughes a'r Clerc yn cydweithio i gynllunio poster i roi cyhoeddusrwydd i'r hyfforddiant.

GOHEBIAETH

83. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob Aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr Aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Daeth gohebiaeth arall i law nad oedd angen i'r Cyngor weithredu arni oddi wrth Hwb Cymunedol y Borth, Byw'n Ddiogel gyda Covid, Ecodyfi - Defnyddio gwern fel gwrtait, Diwrnod Hwyl a Gwybodaeth Porthaethwy, Graddfeydd Ffioedd Ymgynghori, Methiannau difrifol gan Gyngor Tref Maesteg, Helpwch Ni i'ch Helpu Chi.

84. Man Gwefru ULEV Cais am lythyr cefnogaeth i osod man gwefru cerbydau trydan ar safle'r Neuadd Gymunedol. Mae'r mater bellach wedi'i ddatrys am fod man gwefru ar gael.

85. Diffibriliwr yng Nghlwb Golff y Borth Ateb i'w llythyr gwreiddiol (gweler Cofnod 75) a'u penderfyniad i gael gwared ar y diffibriliwr. Dywedodd y Cynghorydd H Hughes fod Jean Harrison o'r Clwb Golff wedi cysylltu ag ef i drefnu cyfarfod i drafod y mater. Nodwyd y dylid creu 'Polisi Diffibrilwyr' y bydd y Clerc yn ei ysgrifennu. Bydd y mater hwn yn cael ei ychwanegu at agenda mis Hydref i'w drafod ymhellach.

86. Band Chwyth Machynlleth Cais am ganiatâd i chwarae yn y Borth ar yr ardal laswelltog gyferbyn â Pebbles. Mae gormod o amser wedi mynd heibio ers i'r cais hwn ddod i law.

87. Ceisiadau am Roddion Ariannol gan Cerebral Palsy Cymru. Bydd ceisiadau am roddion ariannol yn cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Mawrth.

88. E-bost gan Breswlydd (1) Tir ger Brynowen. Anfonwyd e-bost yn ôl at y preswlydd i ofyn am ragor o fanylion er mwyn helpu i gyfeirio'r mater drwy'r system CLIC. Serch hynny, ni ddaeth ateb i law.

89. E-bost oddi wrth breswlydd (2) Mynediad i Bobl Anabl yn y Borth

Dywedodd y Cynghorydd Hughes fod y mater hwn yn parhau, yn enwedig o ran manau parcio i bobl anabl. Soniodd y Cynghorydd H Hughes am y llinellau ar y ffyrdd sy'n aneglur. Mae'r Cyngor wedi ceisio gwneud y traeth yn fwy hygyrch yn y gorffennol, e.e. gyda chadeiriau olwyn sy'n addas i'r traeth. Fodd bynnag, gellir gwneud mwy. Bydd y Clerc yn postio neges ar y cyfryngau cymdeithasol i ofyn am awgrymiadau gan breswylwyr.

Mynegodd y Cynghorydd Salmon bryderon ynglŷn â beicwyr yn y Borth a diogelwch yn gyffredinol. Atgoffodd y Cynghorydd A Hughes y Cyngor ynglŷn â menter Living Streets. Atgoffodd y Cynghorydd Dalton y Cyngor y cynhelir cyfarfod nesaf Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT) ar yr 20fed o Hydref.

90. E-bost oddi wrth breswlydd (3) Arian i gynnal y gwelyau blodau gyferbyn â Siop Nisa

Bydd y Clerc yn cysylltu eto â'r preswlydd i ofyn am syniadau penodol am gyllid, a bydd hefyd yn gofyn a oes angen mwy o wirfoddolwyr. Datganodd y Cynghorydd fuddiant am fod y Cynghorydd Williams yn cynnal a chadw un o'r gwelyau blodau a drafodwyd.

91. E-bost oddi wrth Ray Quant ynghylch gwirio'r rhoden feltt ar y Gofeb Ryfel

Rhagwelir mai'r gost fydd £200. Y tâl ar bawb fydd £600, a bydd hyn yn cynnwys yr eglwysi lleol. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Dalton ac eiliwyd gan y Cynghorydd Jones. Anogodd y Cynghorydd Morris y Cyngor i fod yn ofalus ac i ofyn am yr union gostau cyn bwrw ymlaen. Bydd y Clerc yn cysylltu â Ray er mwyn cael y wybodaeth hon. Awgrymodd y Cynghorydd A Hughes hefyd bod y Clerc yn creu calendr 'tymor hir' ar gyfer y math hwn o waith.

92. Dosbarthodd y Clerc wybodaeth am yr incwm a'r gwariant diweddaraf yng nghyswllt y gyllideb a osodwyd yng nghyfarfod mis Ionawr.

CYFRIFON

93. <u>BALANS Y CYFRIFON AR Y 13EG O AWST 2022</u>	
Nationwide	£25,312.45
Cyfrif Banc Elusenol	£15,596.72
Cyfrif Busnes Dim Rhybudd	£7,449.45
Cyfrif Adnau	£3,829.95

94. <u>INCWM</u>	
Cyngor Sir Ceredigion - taliad yr ail braesept	£6,556.00
Cyfrif Busnes Dim Rhybudd - Llog Gros 02/06/22	£0.53

95. Gwariant - Penderfynodd yr Aelodau dalu'r canlynol. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Dalton a'r eilydd oedd y Cynghorydd Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Cyfrif Banc Elusenol - ffioedd 13/6/22- 12/7/22	£9.06
M Walker - Cyflog mis Awst	£531.05
I Railton - Cyflog mis Awst	£663.65
M Walker Cetrys Inc Gorffennaf ac Awst	£19.98
Heledd Davies – cyfieithu cofnodion mis Gorffennaf	£114.50
Y Cynghorydd H Hughes - pecyn ategolion a phecyn ailosod y diffibriliwr	£66.30
Ffioedd bancio'r Cyfrif Banc Elusenol Mai - Mehefin	£7.40
Ffioedd bancio Mehefin - Gorffennaf	£9.06
Ffioedd bancio Gorffennaf - Awst	£5.80

96. Holodd y Clerc ynglŷn â bancio ar-lein. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Williams a'r eilydd oedd y Cynghorydd Dalton. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

CYNLLUNIO

97. Cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn

A220398 Annedd fewnlenwi arfaethedig. Tir gerllaw Uwch y Nant, y Borth

A220415 Estyniadau ac addasiadau arfaethedig i annedd. Idle Rocks, Ynyslas, Y Borth

A220480 Dileu amod 6 o ganiatâd cynllunio A210411 (mynediad). Tir i'r dwyrain o Renfrew Drive, Ynyslas, y Borth

NI CHAFWYD DIM GWRTHWYNEBIAD I'R UN O'R CEISIADAU UCHOD

AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD

98. Esboniodd y Cynghorydd H Hughes nad oedd dim diweddariad ers y cyfarfod blaenorol. Bydd y Cynghorydd H Hughes yn ymchwilio eto i'r mater gan yr awgrymwyd bod arbenigwr wedi dod i archwilio'r ardal. Serch hynny, ni welodd neb ddim byd. Soniwyd am y grwynau pren sy'n agored ac yn beryglus iawn. Mynegodd y Cynghorydd Morris bryderon ynglŷn â'r methiannau rhwng Cam 1 a 2. Lleisiodd y Cynghorydd Salmon yr un pryder, a soniodd am ychwanegu rhagor o gerrig mân at y traeth. Awgrymodd y Cynghorydd A Hughes y dylid tynnu llun i ddangos bod y banc cerrig mân bellach yn is na 5 metr. Dywedodd y Cynghorydd Salmon iddo ddefnyddio'r gwasanaeth CLIC ddwywaith ac nad oedd neb wedi ateb ei neges wreiddiol a anfonodd ar y 4ydd o Fawrth 2022. Dywedodd y Cynghorydd H Hughes y bydd yn cymryd rhan mewn gweithdy CLIC ar y 24ain o Fedi ac y bydd yn holi ynglŷn â'r mater hwn. Pryder ynglŷn â'r amddiffynfa rhag stormydd. Nodwyd hefyd bod pobl yn gollwng toriadau gwair yn y ddyfrffos ger llwybr yr Hen Eglwys. Bydd y mater hwn yn cael sylw eto ym mis Hydref.

Y WAL GYFERBYN Â SIOP PREMIER

99. Mae'r Cynghorydd H Hughes wedi anfon ateb at Huw Bates ac mae'r Cyngor wedi cyfrannu at y drafodaeth. Bydd y Clerc yn anfon llythyr. Nodwyd hefyd bod y draeniau hefyd yn llawn. Holodd y Cynghorydd Morris a allai'r Cyngor Cymuned brynu'r tir os na fydd y mater yn cael ei ddatrys yn brydlon. Bydd hyn yn cael ei drafod eto ym mis Hydref.

LLEFYDD PARCIO I FEICIAU YN Y BORTH

100. Mae'r Cynghorydd Salmon wedi cael prisiau ar gyfer raciau beic (£135 + TAW ar gyfer ar gyfer rac sy'n dal 4 neu £179 + TAW ar gyfer rac sy'n dal 6). Cysylltwyd â Network Rail i drafod cael rac ger yr orsaf ond ni chafwyd ateb. Codwyd Pryderon ynglŷn â'u gosod ger y neuadd oherwydd y fandaliaeth a gafwyd yno'n ddiweddar. Bydd hyn yn cael ei drafod eto ym mis Hydref.

DATHLU RAY QUANT MBE

101. Roedd y Cynghorydd Griffiths i fod i gysylltu ag ef. Bydd hyn yn cael ei drafod eto ym mis Hydref.

GWEFAN Y CYNGOR

102. Awgrymodd y Cynghorydd H Hughes y gallai fod angen gwefan newydd. Yn rhan o'r archwiliad, mae gofyn i'r Cyngor sicrhau bod dogfennau ar gael ar-lein. Rhaid i'r safle fod yn ddwyieithog hefyd. Bydd y Clerc yn creu cyfrif Twitter i gyfathrebu'n well â'r cyhoedd. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Jones a'r eilydd oedd y Cynghorydd Salmon. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Awgrymodd y Cynghorydd H Hughes hefyd y byddai'n braf petai pawb yn defnyddio cyfeiriad e-bost penodol i ymgymryd â dyletswyddau'r Cyngor. Bydd hyn yn cael ei drafod eto ym mis Hydref.

NEWID HINSAWDD

103. Mynegodd y Cynghorydd Salmon bryderon ynglŷn â'r ffaith nad oedd y Cyngor yn driw i ysbryd y Polisi Amgylcheddol, a hynny yng ngoleuni'r iaith a ddefnyddiai, ac ati. (Gweler Cofnod 191 yng Nghofnodion mis Hydref 2019). Pwysleisiodd y dylid cofio newid hinsawdd bob amser yng nghyswllt Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn rhan o'r wefan newydd, dywedodd y Cynghorydd Jones y gallai'r Cyngor ddefnyddio baner a chenhadaeth newydd.

Diolchodd y Cynghorydd H Hughes i'r Cynghorydd Salmon am ddyfalbarhau â'r gwaith hwn.

GLANHAU'R DDYFRFFOS

104. Trafodwyd y mater hwn yn rhannol eisoes yng Nghofnod 98. Mae'r Cynghorydd Morris yn dal i roi pwysau ar Gyfoeth Naturiol Cymru. Diolchodd y Cynghorydd H Hughes i'r Cynghorydd Morris ac i'r aelod o'r cyhoedd, James Davies, am eu gwaith ar y mater hwn.

SYSTEM CLIC

105. Dywedodd y Cynghorydd Hughes y bydd yn cymryd rhan mewn gweithdy i drafod y system CLIC. Awgrymodd y Cynghorwyr Williams a Jones y dylid cael system 'CLIC Uwch' i gynghorwyr sir er mwyn iddynt ddwyn materion i sylw staff ar lefel uwch. Rhaid parhau i brosesu pob mater drwy'r system CLIC. Cafwyd pryderon nad oedd rhai preswylwyr yn gwybod sut i ddefnyddio CLIC. Bydd y Clerc yn argraffu poster bach i'w roi ar hysbysfyrddau i gynorthwyo'r cyhoedd.

Y PARC CYCHOD

106. N chafwyd cyfarfod ym misoedd Gorffennaf nac Awst. Cytunwyd i gynnal cyfarfod yn y Parc Cychod ar y 19eg o Fedi am 12pm. Gofynnodd y Cynghorydd A Hughes a fyddai modd trafod y rac ceufadau, a'r posibilrwydd o'i osod ar wal adeilad Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub.

ADRODDIAD AM Y MAES CHWARAE

107. E-bost gan y Cynghorydd Bainbridge, a ddarllenwyd gan y Clerc. Cynhaliodd Dave Stephenson archwiliad o'r parc. Codwyd pryderon ynglŷn â'r ffaith bod y byrddau picnic yn anwadal. Y

Cynghorydd Bainbridge bellach yw Is-gadeirydd y Cyngor Iechyd Cymuned yn yr ardal. Roedd y Carnifal yn llwyddiant. Diolchwyd i'r Cynghorydd Williams.

Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r angen i wario 20c i ddefnyddio'r toiled ar lan y môr. Bydd y Clerc yn codi'r mater hwn drwy'r system CLIC.

MATERION Y CADEIRYDD

108. Cydnabu'r Cynghorydd H Hughes y pryderon ynghylch y byrddau picnic. Dywedodd ei fod ef ac aelod arall o'r cyhoedd wedi mynd at i'w hasesu a chytunodd y ddau eu bod yn ddiogel. Gwnaed gwaith hefyd yn ddiweddar arnynt. Holwyd hefyd pwy oedd yn berchen arnynt. Bydd angen edrych ar y mater hwn yn ei gyfanrwydd pan fydd yr yswiriant yn cael ei adnewyddu ym mis Hydref. Ymddiheurodd am fod yn sâl â COVID-19 yn ystod yr haf Croesawyd y Clerc newydd a diolchodd i M Walker am flynyddoedd lawer o wasanaeth. Bydd yn cyfrannu £100 o'i lwfans Cadeirydd er mwyn cael anrheg iddi, a bydd yn parhau i gasglu cyfraniadau gan bobl.

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR

109. Nododd y Cynghorydd Jones ei fod yn falch bod y Cyngor Sir bellach wedi torri'r sietyn ar waelod yr allt. Cydnabuwyd y gwaith da a wnaed mewn cydweithrediad â Jackie Brown yn y feddygfa â'r prosiect Presgripsiynu Cymdeithasol.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod y broblem â'r sietyn yn gordyfu ar waelod Cliff Road bellach wedi'i datrys ar ôl cael sgwrs â pherchennog y sietyn.

Cododd y Cynghorydd Thomas bryderon ynghylch fandaliaeth. Dywedodd y Cynghorydd Salmon ei fod wedi codi'r mater â'r heddlu.

Gofynnodd y Clerc a fyddai modd gwneud cais am gyllid er mwyn ymaelodi â Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac er mwyn sefyll arholiadau Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol fel ei bod yn llawn gymwys i ymgymryd y gwaith. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Dalton a'r eilydd oedd y Cynghorydd Pryce Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

110. Dywedodd y Cynghorydd Hughes y bu'n fis tawel o ran y Cyngor Sir. Mae'n aros am ddiweddariad ynglŷn â'r Eisteddfod a'r system CLIC oedd y prif bryder.

Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNWYS AR YR AGENDA

111. Gan nad oedd rhagor o faterion i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 10.53pm. Ymhlith yr eitemau ar Agenda'r cyfarfod nesaf a gynhelir ar y 3ydd o Hydref 2022 fydd Amddiffyn yr Arfordir a Llifogydd, y Wal Gyferbyn â Siop Premier, Dathlu Ray Quant MBE, Gwefan y Cyngor, Newid Hinsawdd, Glanhau'r Ddyfrffos, diweddariad ar y gweithdy CLIC, y Parc Cychod, yr Adroddiad am y Maes Chwarae, Tap Caban y Sgowtiaid, Gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar y Gwelyau Blodau a Chanlyniadau'r Arolwg Hygyrchedd i Bobl Anabl. Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu unrhyw eitemau eraill at yr agenda. Bydd Clerc yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod.